Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn o fewn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil.

Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchoddedig pan fydd yr anghenion hyn yn wahanol i anghenion pobl eraill;
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhoddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth roi'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Cyngor Cymuned Llangeitho – Dim sylw

Priffyrdd – Dim sylwadau

Draenio Tir – Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau

Ecoleg – Dim sylw

Daeth un gwrthwynebiad i law gan drydydd parti parthed y cais. Mae'r sylwadau yn cwestiynu beth yw'r cyfiawnhad dros adeilad mawr o'r fath yn y lle hwn ac yn tynnu sylw at y datblygu anghyfreithlon sydd wedi digwydd ar y safle eisoes.

CASGLIAD

Dywed Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004:

“Os rhoddir ystyriaeth i'r cynllun datblygu er mwyn gwneud penderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, bydd yn rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall.”

Egwyddor Datblygu

Rhaid rheoli datblygiadau yn y cefn gwlad agored yn llym a dylai fod modd eu cyfiawnhau. Nid oes datganiad cyfiawnhau wedi'i gyflwyno i gefnogi'r cais. Mae'r rhesymau pam fod angen y datblygiad wedi'u nodi ar y ffurflen gais fel a ganlyn:

"1. Mae'r safle lle mae'r peiriannau yn cael eu storio ar hyn o bryd wrthi'n cael ei werthu ac, fel tenant, mae'r ymgeisydd yn gorfod gadael yr adeilad hwnnw cyn gynted â phosib.

2. Mae'r ymgeisydd yn ffermio yn rhan-amser ond oherwydd costau cynyddol y byrnau silwair mae am leihau ei gostau porthiant. Er mwyn cyflawni hynny mae'r ymgeisydd eisiau gwneud gwair yn hytrach na byrnau silwair ac mae arno angen adeilad i gadw'r gwair."

Pan gynhaliwyd ymweliad safle roedd peiriannau adeiladu, ar ffurf offer symud pridd, yn amlwg ar y safle ac nid oedd llawer o dystiolaeth fod y safle yn cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol. Nid ystyrir bod storio peiriannau adeiladu yn cyfiawnhau datblygu yn y cefn gwlad agored.

Mae Rheswm 2 yn ymwneud â chostau cynyddol byrnau silwair a'r angen i storio gwair. Mae'r datblygiad arfaethedig yn creu 412 metr sgwâr o ofod llawr ychwanegol. Ni roddir cyfiawnhad dros gael arwynebedd mor fawr i storio gwair. O ystyried maint yr uned amaethyddol, sef 5 hectar, nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol at ddibenion amaethyddol.

Ers hynny mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod ei phartner yn rhedeg cwmni contractio amaethyddol o'r safle, felly nid ystyrir bod angen gweithredol ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn y lleoliad hwn.

Ystyrir felly fod yr egwyddor o ddatblygu yn y lleoliad hwn yn annerbyniol a byddai datblygu heb gyfiawnhad yn y cefn gwlad agored yn groes i Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010).

Effaith ar y Tirwedd

Fel y nodwyd uchod, saif safle'r cais yn y cefn gwlad agored ac mae mewn lle amlwg. Mae gogledd y safle yn arbennig o agored o ran y tirwedd gan olygu fod y safle yn weladwy o sawl cilomedr i ffwrdd. O ganlyniad, byddai adeilad o'r maint hwn yn y lleoliad a gynigir yn niweidiol i dirwedd a chymeriad yr ardal. Ar hyn o bryd, nid oes yr un adeilad cyfreithlon ar y safle ac felly byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyflwyno adeilad sydd heb gyfiawnhad a hynny mewn lle amlwg iawn ar y tirwedd. Felly mae'r cais yn groes i Bolisiâu DM06 a DM17 o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Materion eraill

Nid yw'r Awdurdod Priffyrdd Lleol na'r adran Draenio Tir yn gwrthwynebu'r datblygiad. Mae'r adran Draenio Tir yn argymhell amodau perthnasol.

Casgliad

Caiff adeiladau yn y cefn gwlad agored eu hannog i fod wrth ymyl y ffurf adeiledig. Felly, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn fod y datblygiad arfaethedig yn annerbyniol oherwydd bod diffyg cyfiawnhad dros ddatblygu yn y lleoliad hwn. Yn ogystal, mae'r safle mewn lle amlwg yn y tirwedd ac ystyrir y byddai'n cael effaith andwyol ar dirwedd a chymeriad yr ardal.

ARGYMHELLIAD:

Gofynnir am bŵer dirprwyedig gan yr Aelod Lleol/ Gwrthod.

1. Nid yw'r cais yn llwyddo i ddangos bod angen y datblygiad arfaethedig yn y lleoliad hwn. Felly nid oes digon o gyfiawnhad dros ganiatáu datblygu yn y cefn gwlad agored, yn unol â'r polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r cais, felly, yn groes i Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010).

2. Saif safle'r cais mewn lle amlwg ar y tirwedd ac i ffwrdd oddi wrth unrhyw ffurf adeiledig gyfreithlon. Felly ystyrir y byddai lleoliad a maint y datblygiad yn niweidiol i gymeriad a golwg yr ardal a'r tirwedd. Felly mae'r cais yn groes i Bolisiâu DM06 a DM17 o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Awdurdod a ddirprwyir

Mae'r Cynghorydd Rhodri Davies wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn y cais hwn ac felly mae wedi gofyn am i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Rheswm dros y Gohirio

Ar ôl cyflwyno'r cais, mae'r ymgeisydd wedi darparu datganiad cynllunio mewn perthynas â'r cais. Ni ystyriwyd y datganiad cynllunio ar adeg ysgrifennu adroddiad gwreiddiol y pwyllgor. Felly gohiriodd y pwyllgor cynllunio ystyriaeth o'r cais hyd nes y gellid ystyried y datganiad cynllunio yn iawn. Ystyriodd y Grŵp Tasg a Gorffen y cais ymhellach hefyd.

Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod ganddi dir ychwanegol i'r 5ha yn y lleoliad hwn a elwir bellach yn Bryn Caseg. Mae 9 ha wedi'u lleoli ym Mhenuwch, 5ha yn Trawsgoed gyda 4ha arall yn cael ei ffermio ar ran ei rhieni yn Tynllidiart / Rhos y Gell. Mae 23ha yn eiddo i'r ymgeisydd.

Mae gan yr ymgeisydd 80 o ddefaid i gyd, gyda bwriadau i gynyddu maint y ddiadell i 150. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar draws pob lleoliad o fewn rheolaeth yr ymgeisydd gyda'r eithriad tir yn Trawsgoed sydd wedi'i gadw ar gyfer y gwair. Ar draws pob safle mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod oddeutu 10.4ha wedi'u cadw ar gyfer gwair. (5ha yn Trawsgoed, 2.8 ha ym Mhenuwch a 2.8 ha ar gaeau Bryn Caseg / Tyncelyn) gyda'r posibilrwydd o gynnwys tir yn Tynllidiart / Rhos y Gell ar gyfer cynhyrchu'r gwair. Fodd bynnag, ni ystyrir bod cyfiawnhad dros adeilad o 412 metr sgwâr o arwynebedd ar gyfer 10.6ha o gynhaeaf gwair.

Nodir bod nifer o geisiadau am adeiladau amaethyddol wedi'u cymeradwyo yn Rhos y Gell, mae'n ymddangos bod y caniatâd hwn wedi'i weithredu a'r adeiladau wedi'u codi. Dangosir bod yr adeiladau hyn yn yr ardal a ffermir gan yr ymgeisydd yn y wybodaeth ategol a ddarperir. Ni ddarparwyd unrhyw gyfiawnhad pam na fyddai'r adeiladau hyn yn addas ar gyfer cynnal busnes fferm.

Mae'r ymgeisydd wedi cadarnhau bod ei phartner yn rhedeg busnes contractio amaethyddol sy'n darparu gwaith daear i ffermydd yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cynnal a chadw traciau a ffensys, draenio tir a pharatoi safleoedd ar gyfer codi adeiladau amaethyddol. Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cadarnhau bod ei phartner yn gwneud rhywfaint o waith adeiladu nad yw'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth. Felly, ystyrir bod y gwaith a wnaed gan bartner yr ymgeisydd yn gyfystyr â gwaith adeiladu yn hytrach nag amaethyddiaeth ddilys, ac felly nid oes angen swyddogaethol i'r busnes gael ei leoli mewn lleoliad cefn gwlad agored anghynaliadwy.

Bu'r Grŵp Tasg a Gorffen hefyd yn ystyried y cais mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2021.

Cyfeiriwyd yr achos hefyd at y Grŵp Tasg a Gorffen.

Adolygodd yr aelodau'r cais, adroddiad y pwyllgor, cyflwyniad ysgrifenedig yr ymgeisydd a chofnodion y cyfarfod.

Nododd y Grŵp Tasg a Gorffen mai argymhelliad y Swyddogion oedd gwrthod y cais am y seiliau a ganlyn:

- Mae hwn yn gais am sied 412 metr sgwâr ar safle 5 hectar ar gyfer storio peiriannau a phorthiant, ond ni ddarparwyd unrhyw gyfiawnhad i gefnogi'r cais am ddatblygiad yng nghefn gwlad agored, nid yw wedi'i leoli'n agos at ffurf adeiledig, ac mae'r safle mewn lleoliad amlwg yr ystyrir ei fod yn cael effaith niweidiol ar dirwedd a chymeriad yr ardal.

Nododd y Grŵp Tasg a Gorffen fod yr ymgeisydd yn y pwyllgor wedi cyfeirio nad oedd yr holl wybodaeth wedi'i hystyried, gan nad oedd y Swyddog wedi ystyried tir sydd wedi'i leoli'n achlysurol o amgylch y sir i gynnwys 13 erw yn Trawsgoed, 10 erw yn Rhosygell, tir yn Tynllidiart (maint heb ei nodi) a thir yn Llanio (maint heb ei nodi).

Nododd yr Aelod fod y ffocws ar gyfer datblygu ar y darn hwn o dir, a'i bod yn anodd cyfiawnhau sied o'r maint hwn ar safle 5 hectar. Fe wnaethant nodi hefyd nad oedd yr ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth yn ymwneud ag addasrwydd lleoli'r sied yn un o'r safleoedd eraill, ac y byddai angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â'r busnes amaethyddol, adeiladau eraill ger y safle a pherchnogaeth, gan ddwyn i mewn meddwl am yr angen i gefnogi busnesau amaethyddol.

Daethpwyd i'r casgliad bod y grŵp yn argymhell bod y Pwyllgor yn dilyn argymhelliad y Swyddog mewn perthynas â'r cais hwn.

Pwyllgor / Committee

Rhif y Cais / Application Reference	A210464
Derbyniwyd / Received	10-05-2021
Y Bwriad / Proposal	Erection of steel framed storage shed to be used for the storage of machinery and fodder.
Lleoliad Safle / Site Location	Tyncelyn Fields, Llangeitho, Tregaron, SY25 6QL
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Ms Naomi Mudie, Tyncelyn Fields Llangeitho, Llangeitho, SY25 6QL
Asiant / Agent	Mr Graham Leaver (Egis Consultancy Ltd), Lowendel Cliffords Mesne, Newent, Gloucester, GL18 1JT

Y SAFLE A HANES PERTHNASOL / THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site refers to an open area of agricultural field. Numerous buildings have unlawfully been developed on the site, as well as the unlawful sting of a caravan. When a site visit was undertaken construction machinery was prevalent. An enforcement file is open in regards to the unlawful development.

Planning History

A160747 - Prior approval application for the Erection of a storage building for agricultural contractor - Permission required 04/09/2016

A200963 - Prior approval application for the erection of storage shed - Permission required 18/12/2020

A210117 - Erection of a steel framed storage shed to be used for the storage of machinery and fodder – Refused 20/04/2021

MANYLION Y DATBLYGIAD / DETAILS OF DEVELOPMENT

This application seeks full planning permission for the erection of an additional agricultural building.

The proposed shed is to measure 22.86m in length and 10.67m in width with an open lean-to measuring 22.86m by 7.32m being positioned on the north east elevation. The building will have a height of 4.26m to eaves and 5.18m to ridge. The proposed shed is to be fully enclosed with double doors to the south east elevation. The materials are to be concrete blockwork lower walls with corrugated steel walls and roof.

POLISIAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL / RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE

Mae'r polisiâu canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn: / These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- DM06 High Quality Design and Placemaking
- DM10 Design and Landscaping
- DM17 General Landscape
- S01 Sustainable Growth
- S04 Development in Linked Settlements and Other Locations
- DM13 Sustainable Drainage Systems
- TAN6 Planning for Sustainable Rural Communities (2010)

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL / OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

EQUALITY ACT 2010

The Equality Act 2010 identifies a number of 'protected characteristics', namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

- removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
- taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
- encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

YMATEBION YMGYNGHORI / CONSULTATION RESPONSES

Cyngor Cymuned Llangeitho Community Council - Did not comment

Highways - No observations

Land Drainage - No objection STC

Ecology - Did not comment

1 Third party objection has been received in respect of the application. The representation questions the justification for such a large building in this location, and draws attention to the unlawful development which has already taken place on site.

CASGLIAD / CONCLUSION

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise".

Principle of Development

Development in the open countryside must be strictly controlled and should be justified. No justification statement has been submitted in support of the application. The reasons why the development is required as stated on the application form read as follows.

- "1. The site where the machinery is currently stored is being sold and, as tenant, the applicant is having to vacate that building as soon as possible.
2. The applicant is farming on a part time basis, but due to the rising costs of silage bales wants to minimise the fodder costs. To meet this objective the applicant wants to make hay rather than baled silage and a building is required to store the hay."

When a site visit was undertaken construction machinery in the form of earth moving equipment was prevalent on site and there was little evidence of the site being used for agricultural purposes. The storage of construction machinery is not considered a justified use for development in the open countryside.

Reason 2 relates to the rising cost of silage bails and the need to store hay. The proposed development creates 412 sq meters of additional floor space. No justification is given as to why such a large area is required for the storage of hay. Given the size of the agricultural unit of 5ha, it is not considered necessary for agricultural purposes.

The applicant has since confirmed that her partner operates an agricultural contracting company from the premises, it is not therefore considered that a functional need exist for the proposed development in this location.

The principle of development at this location is therefore considered unacceptable and would be unjustified development in the open countryside contrary to Technical Advice Note 6: Planning for Sustainable Rural Communities (2010).

Impact on the Landscape

As noted above, the application site is located in the open countryside and is in a prominent location. The north of the site in particular is very open in its landscape which allows the site to be visible from several kilometres. Consequently, a building of this scale in the proposed location would be detrimental to the landscape and character of the area. At present, there are no lawful buildings on the site and consequently, the proposed development would introduce an unjustified building in a very prominent location within the landscape. The proposal is therefore contrary to Policies DM06 and DM17 of the LDP.

Other Matters

The LHA, and land drainage department have no objection to the development with the land drainage department recommending relevant conditions.

Conclusion

Buildings in the open countryside are encouraged to be adjacent to the built form. Therefore, the LPA are of the opinion that the proposed development is unacceptable due to there being a lack of justification for development at this location. Additionally, the site is in a prominent location within the landscape and is considered to have a detrimental impact on the landscape and character of the area.

ARGYMHELLIAD / RECOMMENDATION:

Delegated Power sought from Local Member/Refuse.

1. The application fails to demonstrate a need for the proposed development in this location. Therefore there is not sufficient justification for allowing development in the open countryside in line with national planning policy. The proposal is therefore contrary to Technical Advice Note 6: Planning for Sustainable Rural Communities (2010).
2. The application site is located in a prominent location in the landscape away from any lawful built form. Therefore, the

siting and scale of the development is considered to be detrimental to the character and appearance of the landscape and area. Consequently, the proposed development is contrary to Policies DM06 and DM17 of the Local Development Plan.

Delegated Authority

Cllr Rhodri Evans has declared a personal and prejudicial interest in this application and has therefore requested that the application be referred to the Development Control Committee for consideration.

Reason for Deferral

Following the submission of the application the applicant has provided a planning statement in respect of the application. The planning statement was not considered at the time of writing the original committee report. The planning committee therefore deferred consideration of the application until such a time the planning statement could be properly considered. The Task and Finish Group also further considered the application.

The applicant has confirmed that she has additional land to the 5ha in this location which is now known as Bryn Caseg. 9 ha are located at Penuwch, 5ha at Trawsgoed with a further 4ha farmed on behalf of her parents at Tynllidiart/Rhos y Gell. In total 23ha are owned by the applicant.

- I. total the applicant has 80 sheep with aspirations to increase the size of the flock to 150. These are located across all locations within the applicants control save for land at Trawsgoed which is reserved for Hay. Across all sites the applicant has confirmed that approximately 10.4ha are reserved for hay. (5ha at Trawsgoed, 2.8 ha at Penuwch and 2.8 ha at Bryn Caseg/Tyncelyn fields) with the possibility of including land at Tynllidiart/Rhos y Gell for the production of Hay. It is not however considered that a building of 412 sqm of floor space is justified for 10.6ha of hay harvest.

It is noted that a number of applications for agricultural buildings have been approved at Rhos y Gell, it would appear as though these permissions have been implemented and the buildings constructed. These buildings are shown as being in the area farmed by the applicant within the supporting information provided. No justification has been provided as to why these buildings would not be suitable for the carrying out of farm business.

The applicant has confirmed that her partner runs an agricultural contracting business which provides ground works to farms in the locality. This includes track and fence maintenance, land drainage and the preparation of sites for the erection of agricultural buildings. The applicant has also confirmed that her partner carries out some building work not related to agriculture. The work undertaken by the applicants partner is therefore considered to constitute building work rather than genuine agriculture, and therefore no functional need exist for the business to be located in an unsustainable open countryside location.

The Task and Finish Group also considered the application at a meeting held on the 23rd of November 2021.

The case has also been referred to the Task and Finish Group.

Members reviewed the application, the committee report, the applicant's written submission and minutes of the meeting.

The Task and Finish Group noted that the Officers recommendation was to refuse the application on the following grounds:

- This is an application for a 412 sq m shed on a 5 hectare site for the storage of machinery and fodder, however no justification has been provided in support of the application for development in the open countryside, it is not located near to built form, and the site is in a prominent location which is considered to have a detrimental impact on the landscape and character of the area.

The Task and Finish Group noted that reference was made by the applicant in committee that not all the information had been considered, as Officer had not taken into consideration land which is sporadically located around the county to include 13 acres in Trawsgoed, 10 acres in Rhosygell, land in Tynllidiart (size not specified) and land in Llanio (size not specified).

Member noted that the focus for development was on this parcel of land, and that it is difficult to justify a shed of this size on a 5 hectare site. They also noted that the applicant had not put forward information relating to the suitability of locating the shed at one of the other sites, and that more information would be required in relation to the agricultural business, other buildings near the site and ownership, bearing in mind the need to support agricultural businesses.

It was concluded that the group recommend that Committee follow the Officer recommendation in relation to this application.